
ihcc
International Health Coordination Centre
Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd

Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol






# Adroddiad Cynnydd 2013-2015

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Byrfoddau** | **3** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Strwythur llywodraethu** | **5** |
| **Map rhanddeiliaid** | **6** |
| **Arolwg o'r prif feysydd gweithredu** | **8** |
| 1. Gweithwyr iechyd Cymru fel Dinasyddion Byd-eang | 8 |
| 2. Cryfhau ein cysylltiadau | 10 |
| 3. Gwella amlygrwydd GIG Cymru a Chymuned Iechyd Cymru | 13 |
| 4. Meincnodi a chymharu | 15 |
| **Gweithgareddau eraill** | **17** |
| **Datblygu'r Ganolfan yn y dyfodol** | **18** |
| **Atodiad A: Cyflawniadau'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd** | **19** |
| **Atodiad B: Adnoddau a gwefannau defnyddiol** | **20** |



Ysgrifennwyd a golygwyd gan: Lauren Ellis, Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Mariana Dyakova, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Malcolm Ward, Prif Arbenigwr Hybu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

E-bost: International.Health@Wales.NHS.UK
Gwefan: www.internationalhealth.wales.nhs.uk



Dyluniwyd gan Creative Loop www.creative-loop.co.uk

# Byrfyddodau

| | |
|---|---|
| Yr Adran Iechyd | AI |
| Y Comisiwn Ewropeaidd | CE |
| Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod | AOCB |
| Sefydliadau Addysg Uwch | SAU |
| Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol | IANPHI |
| Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd | IHCC |
| Y Grŵp Strategaeth Rhyngwladol ar Iechyd | IHSG |
| Fframwaith Cyfnod Allweddol | FfCA |
| Memorandwm Dealltwriaeth | MD |
| Gwasanaeth Iechyd Gwladol | GIG |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | ICC |
| Yr Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Trofannol | THET |
| Llywodraeth Cymru | LlC |
| Cylchlythyr Iechyd Cymru | CIC |



# Cyflwyniad

Sefydlwyd y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd yn sgil fframwaith Llywodraeth Cymru (LlC) 'Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau: Fframwaith ar gyfer cysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2012. Diben y fframwaith yw pennu agenda a dull o gydgysylltu a chryfhau'r camau gweithredu ym maes iechyd rhyngwladol o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru a'r gymuned iechyd ehangach.

Sefydlwyd y Ganolfan yn 2013, ac mae'n ganolbwynt ar gyfer gwaith rhyngwladol ar iechyd ar draws y GIG a ledled Cymru.

Nod y Ganolfan yw datblygu'r rhagoriaeth, arbenigedd, angerdd ac ymrwymiad a ddangosir gan sefydliadau ac unigolion o fewn y gymuned iechyd yng Nghymru.

Gwna hyn drwy hyrwyddo, cefnogi a hwyluso cyfleoedd ar gyfer cydweithio, llunio partneriaethau a chynhyrchu incwm yn rhyngwladol er mwyn gwneud y mwyaf o'r buddion posibl ac effaith polisi i Gymru a lleihau'r achosion o ddyblygu ymdrechion ac adnoddau.

Mae'r Ganolfan wedi canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth, fel y diffinnir yn fframwaith y Llywodraeth:

I. Bydd staff GIG Cymru yn cael eu grymuso i fod yn ddinasyddion byd-eang;
II. Bydd ein cysylltiadau iechyd rhyngwladol yn cael eu hatgyfnerthu;
III. Bydd gan Gymru broffil rhyngwladol uwch sy'n hyrwyddo ac yn adlewyrchu ein harbenigedd a'n gwerthoedd; a
IV. Byddwn yn meddu ar y wybodaeth a'r deallusrwydd i feincnodi ein hiechyd a'i gymharu ag amrywiaeth o ddangosyddion rhyngwladol


Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r gwaith a'r camau a gymerwyd gan y Ganolfan ers ei sefydlu hyd heddiw, ei heffaith a'i chyflawniadau; a chyfeiriad unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol. I gloi, ceir crynodeb o holl ganlyniadau gweithgareddau'r Ganolfan a rhestr o wefannau defnyddiol ar ddiwedd y ddogfen (Atodiad A a B).



# Strwythur llywodraethu

Mae'r Ganolfan wedi'i hymgorffori'n strwythurol, o ran rheolaeth ac yn ariannol, o fewn Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, Is-adran Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol yn flaenorol (Ffigur 1). Mae ganddi Grŵp Cynghori sefydledig ac ymgysylltiad gweithredol a boddhaus â Llywodraeth Cymru.

Ffigur 1. Strwythur y sefydliad




Mae'r Grŵp Cynghori'n dod â chynrychiolwyr o wahanol sectorau iechyd ynghyd, ac yn eu galluogi i rannu eu barn a'u harbenigedd, i gynghori ar gyfeiriad a datblygiad y Ganolfan, yn ogystal â nodi'r cyfleoedd a'r meysydd gweithredu posibl.


Mae'r Grŵp Cynghori hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau cyffredinol ac yn cynnig adborth gan aelodau cyfansoddol. Mae'r sefydliadau a gynrychiolir yn cynnwys:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Gofal Sylfaenol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Glyndŵr
- Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica

# Map Rhanddeiliaid

Mae'r IHCC wedi llwyddo i sefydlu rhwydwaith cryf o randdeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu ein rhaglen waith (Ffigur 2).

Ffigur 2. Map rhanddeiliaid y Ganolfan



## Llywodraeth a'r Sector Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Public Health England

Department of Health

FACULTY OF PUBLIC HEALTH

## GIG Cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Cwm Taf Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Hywel Dda Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Velindre NHS Trust

GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services NHS Trust

1000 LIVES + 0 FYWYDAU

THE WELSH NHS CONFEDERATION
CONFFEDERASIWN GIG CYMRU


Mae'r map rhanddeiliaid yn nodi'r partneriaid allweddol y mae'r Ganolfan wedi cael perthynas waith â hwy. Nid yw hon yn rhestr gyflawn o'r holl sefydliadau y mae'r Ganolfan yn ymgysylltu â hwy.

# Arolwg o'r Prif Feysydd Gweithredu

## 1 Gweithwyr iechyd Cymru fel Dinasyddion Byd-eang

Mae angen annog a chefnogi gweithwyr iechyd Cymrus i ddatblygu rolau priodol sy'n rhoi buddion personol, sefydliadol ac ehangach i Gymru a'i phartneriaid rhyngwladol.

*Ffigur 3. Taflen wybodaeth ar Ddinasyddiaeth Fyd-eang a anfonwyd at staff*




### 1 Camau gweithredu ar sail y Fframwaith


Bydd y Ganolfan yn cynnal arolwg o'r camau a gymerwyd gan sefydliadau GIG Cymru sy'n cydymffurfio â Chylchlythyr Iechyd Cymru (2006) 070. *(Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gylchlythyrau Iechyd Cymru rhwng 2001 a 2008 yn cynnig cyngor i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru)*

**Cynnydd**

Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn 2013 yn trafod canlyniadau'r weithred hon (ewch i atodiad A). Cyfarfu'r Ganolfan â phob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd yng Nghymru i drafod canfyddiadau'r adroddiad, ac i archwilio ym mha feysydd roedd angen cefnogaeth a datblygu dulliau cydweithredu.

**Effaith**

Llywiodd yr arolwg hwn ddatblygiad y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru, a oedd yn rhoi trosolwg o'r meysydd a oedd angen cymorth ychwanegol ar gyfer Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd, yn ogystal ag amlygu meysydd rhagoriaeth.



### 2 Camau gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn penodi uwch bencampwr ym mhob grŵp staff o fewn GIG Cymru i gynghori staff ynghylch buddion ymgysylltu â gwaith iechyd rhyngwladol a'i hyrwyddo iddynt.

**Cynnydd**

Pennwyd unigolion cyswllt ym mhob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd ledled Cymru.

**Effaith**

Mae pennu unigolion cyswllt uniongyrchol ym mhob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd ledled Cymru yn gwneud rhannu gwybodaeth yn fwy effeithlon, yn ogystal â hwyluso'r broses o weithio tuag at gyflawni amcanion a rennir.

## Dinasyddiaeth Fyd-eang

**Er mwyn gweld faint o ddiddordeb a oedd mewn sefydlu cwrs Dinasyddiaeth Fyd-eang, anfonwyd taflen wybodaeth a holiadur cwmpasu at bob sefydliad GIG yng Nghymru i alluogi staff i gyflwyno eu barn (ffigur 3).**

Mae'r Ganolfan yn credu y byddai cwrs o'r fath yn dod â budd i staff, ac yn arwain at ddealltwriaeth well o broblemau iechyd byd-eang, yn ogystal â mwy o werthfawrogiad o'r GIG.

Mae'r Ganolfan wedi ymgysylltu â Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru i helpu i lywio sut y caiff cwrs ei ddatblygu, oherwydd ei gwybodaeth a'i phrofiad eang o'r agenda Dinasyddiaeth Fyd-eang drwy ei gwaith helaeth gydag ysgolion.

Gellir gweld canlyniadau'r holiadur cwmpasu yn yr adroddiad (gweler atodiad A). Roedd yr adborth gan y rheiny a gymerodd ran yn gadarnhaol, ac roeddent yn awyddus i gwrs gael ei ddatblygu.

Er enghraifft, pan ofynnwyd 'A ydych yn credu y bydd cynyddu eich gwybodaeth am ddinasyddiaeth fyd-eang yn eich helpu yn eich gwaith o ddydd i ddydd yn y GIG?', roedd yr ymatebion yn cynnwys:

## 3 Camau gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn archwilio'r cyfleoedd priodol ar gyfer gefeillio trefniadau sy'n alinio ag amcanion y Fframwaith Cyfnod Allweddol.

### Cynnydd

Nid yw'r fframwaith bellach yn weithredol. Fodd bynnag, mae'r Ganolfan yn cefnogi a hyrwyddo trefniadau gefeillio.

### Effaith

Mae cysylltiadau ffurfiol yn cael eu sefydlu rhwng gwledydd a sefydliadau sy'n arwain at gyfleoedd gwell ar gyfer cydweithio, rhannu gwybodaeth ac arferion da, sy'n cyfrannu at wella iechyd, hyrwyddo iechyd a chyflenwi'r gwasanaeth. Mae'r Ganolfan wedi rhoi cymorth i fentrau gefeillio fel y bartneriaeth Hywel Dda - Trieste, drwy roi cyngor ar arian, rhannu gwybodaeth a chyfeirio mentrau at wybodaeth. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi defnyddio'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru i gefnogi ei gwaith.

## 4 Camau gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn gweithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch i asesu'r lefelau addysgu presennol ar iechyd rhyngwladol a datblygu a chynnal cymorth ar gyfer cwricwla sy'n rhoi'r gallu i fyfyrwyr Cymru chwarae rôl mewn datblygiad iechyd rhyngwladol.

### Cynnydd

Cynhaliwyd arolwg sylfaenol o'r cwricwla Iechyd Byd-eang sydd ar gael yn Sefydliadau Addysg Uwch Cymru i ganfod lefel bresennol addysgu pynciau iechyd rhyngwladol yng Nghymru.

### Effaith

Rhoddodd cymryd stoc drosolwg o'r cyrsiau iechyd byd-eang sydd ar gael yng Nghymru. Mae hyn yn cael ei archwilio gan gyrff eraill er mwyn cynyddu o bosibl lefel yr addysgu iechyd byd-eang(gweler yr adroddiad yn Atodiad A).

## 5 Camau gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn creu cofrestr o'r gweithwyr iechyd yng Nghymru sy'n gwneud gwaith rhyngwladol.

### Cynnydd

Crëwyd bas data sy'n cael ei gynnal a'i ddiweddaru yn ôl y gofyn. Mae gan y Bas Data ar gyfer Prosiectau Iechyd Rhyngwladol 60 o enghreifftiau ar hyn o bryd o brosiectau rhyngwladol y mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn cymryd rhan ynddynt.

### Effaith

Mae'r Bas Data yn galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill i weld pa brosiectau rhyngwladol sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i rannu gwersi a lleihau unrhyw achosion o ddyblygu gwaith.

"Pan fyddaf yn gweithio yn y byd datblygol, rwy'n sylweddoli pa mor wych yw'r GIG, er gwaethaf ei holl broblemau a'r feirniadaeth yn ei gylch."

"Rwy'n gweithio mewn rôl partneriaeth a chynllunio strategol felly rwy'n canolbwyntio'n bennaf ar archwilio sut y gallwn weithio gyda sefydliadau eraill i wella canlyniadau i'r boblogaeth yn ehangach. I gyflawni hynny, rhaid inni ddeall amrywiaeth ein dinasyddion, a gweithio'n galetach i greu gwasanaethau mwy ymatebol ac integredig a dysgu o enghreifftiau o arfer da mewn mannau eraill o'r byd."

"Yn bendant, wedi imi allu dilyn Ysgoloriaeth Teithio Florence Nightingale yn 2012, mae'r hyn a ddysgais wedi gwella fy nealltwriaeth o bwysigrwydd gwneud penderfyniadau ar y cyd a chefnogi pobl sydd â chyflyrau sy'n amharu ar eu bywydau; a bod staff yn ymyrryd er mwyn ystyried yn llawer cynt yr opsiynau a'r blaenoriaethau y mae'n bosibl yr hoffai pobl eu hystyried wrth iddynt wynebu'r cyfnod o'u salwch lle maent yn dod at ddiwedd eu bywydau."

# 2 Bydd eich cysylltiadau iechyd rhyngwladol yn cael eu cryfhau

Mae Cymru eisoes yn ymgysylltu â phartneriaid ledled y byd, gan gynnwys sefydliadau fel Sefydliad Iechyd y Byd, y Comisiwn Ewropeaidd a'r Cenhedloedd Unedig.

Yn ogystal, mae Cymru wedi defnyddio ei chysylltiadau i weithio gyda phartneriaid yn Affrica is-Sahara, Tsiena ac India, sy'n gweithredu fel ambarél ar gyfer nifer o weithgareddau.

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r effaith a gawn, mae'n bwysig ein bod yn datblygu dull mwy cydlynol a chyson o weithio gyda phartneriaid sy'n cydymffurfio ag uchelgeisiau, egwyddorion a moeseg Cymru.

## 6 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod cysylltiadau effeithiol wedi'u sefydlu mewn perthynas ag iechyd rhyngwladol a deddfwriaeth iechyd.

### Cynnydd

Mae Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan yn cyfrannu at Grŵp Iechyd Rhyngwladol y GIG yr Adran Iechyd. Mae'r grŵp yn dod ag arweinwyr iechyd rhyngwladol ynghyd o bob cwr o'r DU, fel yr Adran Datblygu Tramor a Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Lloegr a'r cenhedloedd datblygedig, gan weithredu fel llwyfan cyfnewid gwybodaeth sy'n amlygu'r prif gyfleoedd a materion sy'n ymwneud â'r agenda iechyd rhyngwladol. Mae'r Ganolfan hefyd wedi datblygu cysylltiadau â Grŵp Gwirfoddoli Rhyngwladol yr Adran Iechyd, sy'n canolbwyntio'n benodol ar faterion gwirfoddoli rhyngwladol y GIG.

### Effaith

Mae cyfraniadau at Grŵp Iechyd Rhyngwladol yr Adran Iechyd wedi arwain at wahoddiadau i'r Ganolfan roi dau gyflwyniad – un am y ffordd Gymreig o weithio, ac un yn benodol am y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru. Maent hefyd wedi arwain at gynyddu gwaith allgymorth Cymru a'i heffaith, drwy gael ei gwaith rhyngwladol wedi'i gynnwys mewn o leiaf dau gyhoeddiad yn y DU a drwy astudiaethau achos. Mae Grŵp Gwirfoddoli'r Adran Iechyd hefyd wedi edrych yn agos ar y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol i lywio polisi gwirfoddoli.

## 7 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn cynnal arolwg gwerthuso o'r gweithgaredd iechyd rhyngwladol a wneir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, GIG Cymru a sefydliadau iechyd cysylltiedig, ac yn adrodd i'r Grŵp Strategaeth Iechyd Rhyngwladol.

### Cynnydd

Gellir gweld copi gorffenedig o'r arolwg gwerthuso yn Atodiad A. Cafodd yr adroddiadau unigol a gyhoeddwyd ar gyfer pob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd eu rhannu gyda hwy yn unig. Yn ogystal, cyhoeddwyd adroddiad i Gymru gyfan a ddosbarthwyd yn ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi casglu a darparu gwybodaeth ar Femoranda Dealltwriaeth rhyngwladol.

### Effaith

Arweiniodd yr arolwg gwerthuso at sefydlu Bas Data ar gyfer Prosiectau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru, a galluogi astudiaethau achos ar weithgaredd rhyngwladol i gael eu casglu. Bu'r arolwg hefyd o gymorth o ran llywio'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru.

## 8 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn cyhoeddi astudiaethau achos o gasgliad o'r camau gweithredu a nodwyd yn yr arolygon.

### Cynnydd

Cyhoeddwyd cyfres o astudiaethau achos ar y bas data ar wefan y Ganolfan ar gyfer Prosiectau Iechyd Rhyngwladol, sy'n cael ei gynnal a'i ddiweddaru yn ôl y gofyn.

### Effaith

Mae'r Bas Data ar gyfer Prosiectau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru yn galluogi gweithwyr proffesiynol ac eraill yng Nghymru i weld pa brosiectau rhyngwladol sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r bas data hefyd yn rhoi cyfle i rannu'r hyn a ddysgir ac yn lleihau achosion o ddyblygu gwaith.

## 9 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dod yn aelod cysylltiol o'r Ganolfan Ryngwladol dros Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI).

### Cynnydd

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelod o IANPHI ac mae cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu'n cael eu harchwilio. Mae'r rhain yn cynnwys: perthynas un i un; cydweithredu; rhwydweithio; ac adolygu gan gymheiriaid.

### Effaith

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelod o IANPHI, ac mae'n dod â'r hyn a ddysgir yn ôl i Gymru ac yn hyrwyddo safbwynt Cymru yn y fforwm Ewropeaidd. Nodwyd ystod o gyfleoedd ar gyfer y dyfodol ym meysydd gwella ansawdd ac eirioli sy'n cael eu hystyried gan Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 10 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd Llywodraeth Cymru yn annog holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Lleol y GIG i gefnogi cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd eu cysylltiadau lleol â phartneriaid iechyd yn Affrica Is-Sahara.

### Cynnydd

Mae'r cam gweithredu hwn yn un parhaus ac fe'i cryfhawyd yn sylweddol gan ddatblygiad y Siarter ar gyfer Partneriaid Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru, er nad yw wedi'i gyfyngu i annog gwaith yn Affrica Is-Sahara.

### Effaith

Mae partneriaethau mwy cynaliadwy ac effeithiol yn cael effaith well ar y rheiny sy'n cymryd rhan, o ran profiad, cyd-ddysgu a chanlyniadau iechyd.

## 11 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Bartneriaeth yn datblygu Siarter i Gymru ar gyfer Cysylltiadau Iechyd, sy'n nodi'r amcanion strategol a rhestr o'r prif feini prawf.

### Cynnydd

Ehangodd datblygiad Siarter ar gyfer Cysylltiadau Iechyd i fod yn Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru, er mwyn gallu cynnwys pob partneriaeth iechyd ryngwladol, gan fod y Ganolfan yn credu nad oes cyfyngiadau daearyddol ar arferion gweithio rhyngwladol da. Lansiwyd y Siarter ym mis Tachwedd 2014 ar ôl iddi gael ei datblygu yn dilyn trafodaethau grŵp Gorchwyl a Gorffen, gweithdai a phroses ymgynghori dwy gam.

### Effaith

Mae'r Siarter wedi darparu canolbwynt unedig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn rhyngwladol yng Nghymru ac mae'n feincnod y gall byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ei ddefnyddio er mwyn nodi eu cynnydd yn erbyn egwyddorion y Siarter.

## 12 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan yn cefnogi parhad Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica.

### Cynnydd

Mae gan y Llywodraeth a'r Ganolfan gynrychiolwyr ar grwpiau cynghori priodol, ac maent yn parhau i gydweithio drwy Femorandwm Dealltwriaeth.


### Effaith

Mae cael cynrychiolaeth o'r Llywodraeth a'r Ganolfan yn sicrhau nad oes dyblygu gwaith, a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu, bod synergeddau'n cael eu nodi a'u bod yn cael yr effaith fwyaf.

# Y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru





**Lansiwyd y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru yn llwyddiannus ym mis Tachwedd 2014 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Athro Mark Drakeford AS. Yn y digwyddiad, ymrwymodd pob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd i gefnogi'r Siarter, gan gadarnhau ymrwymiad Cymru i bartneriaethau rhyngwladol.**




*Uwch gynrychiolwyr o'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau yn dal tystysgrifau a roddwyd iddynt gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. O'r chwith i'r dde: Maria Battle, Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; Joanna Davies Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Karen Howell Prif Swyddog Gweithredol (dros dro), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda; Yr Athro Vivienne Harpwood, Cadeirydd, Bwrdd Addysgu Iechyd Powys; Yr Athro Syr Mansel Alyward, Cadeirydd, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru; Richard Lee, Pennaeth Gwasanaethau Clinigol, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru; Dr Sue Morgan Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Gwella Gwasanaeth, Ymddiriedolaeth GIG Felindre; Parch. Wynne Roberts Rheolwr Gofal Bugeiliol a Phartneriaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Dr Sara Hayes, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg; Dr Tei Sheraton, Anaesthetydd Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.*


Roedd cynrychiolaeth o bob cwr o Gymru yn y digwyddiad, gyda thua 60 o gynadleddwyr yn ogystal â swyddogion o sefydliadau yn Lloegr, fel yr Adran Iechyd, yr Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Drofannol (THET) ac UK-Med. Daeth UK-Med ac Iechyd Cyhoeddus Cymru â'r gynhadledd i ben gyda throsolwg o'r camau a gymerwyd mewn ymateb i Ebola yn y DU.




*Ymunodd Dr Tony Redmond, o UK-Med, â'r achlysur lansio trwy fideo-gynadledda i roi'r diweddaraf ar yr ymateb i Ebola ar draws y DU.*







## Camau gweithredu

Sefydlwyd Grŵp Gweithredu'r Siarter i sicrhau y bydd yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus o fewn Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd. Mae cynrychiolwyr o bob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica ar y Grŵp.

Bydd y grŵp yn datblygu system monitro a gwerthuso i ganfod pa effaith y mae'r Siarter yn ei chael.

*Staff yn egluro pam maent yn cefnogi'r Siarter*

# 3 Bydd gan Gymru broffil rhyngwladol uwch sy'n hyrwyddo ac yn adlewyrchu ein harbenigedd a'n gwerthoedd

Mae'r cynnydd byd-eang yn y niferoedd sy'n dal clefydau anhrosglwyddadwy yn fygythiad i Gymru ac i wledydd datblygedig a datblygol fel ei gilydd.

Yn ogystal, mae'r achosion diweddar o glefydau heintus fel Ebola, ffliw ac eraill yn dangos nad ydym ar ein pennau ein hunain o ran ein heriau iechyd a bod angen atebion byd-eang ar gyfer problemau byd-eang. Mae gan Gymru enw da rhagorol am fod yn llais pwysig a dibynadwy mewn trafodaethau rhyngwladol, ac mae'n rhaid inni wneud y mwyaf o hyn a'i ddatblygu.



## 13 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn datblygu perthnasau strategol gyda rhanbarthau a sefydliadau Ewropeaidd eraill i hwyluso ceisiadau am arian gan y Comisiwn Ewropeaidd.

### Cynnydd

Mae'r Ganolfan wedi arwain cyfarfod a seminar gyda'r Comisiwn a'r Gweinidog Iechyd, ynghyd ag uwch swyddogion o Iechyd Cyhoeddus Cymru ac uwch gynrychiolwyr o bob rhan o GIG Cymru.

Mae cynlluniau ar gyfer anfon cynrychiolwyr iechyd o Gymru i Frwsel yn cael eu hystyried ac mae datblygu perthnasau strategol yn dasg barhaus.

### Effaith

Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei ystyried yn un sydd â blaenoriaeth uchel ac uchelgais y Ganolfan yw datblygu hyn ymhellach i sicrhau canlyniadau gwirioneddol a hirdymor drwy gynyddu ymgysylltiad rhanbarthol a fyddai'n arwain at gydweithio a cheisiadau am arian priodol.

## 14 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn datblygu dull gweithredu strategol gyda phartneriaid amlasiantaethol yng Nghymru i hwyluso ceisiadau am gyllid allanol ar gyfer ymgysylltiadau iechyd rhyngwladol.

### Cynnydd

Bu'r Ganolfan yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu capasiti yn y GIG yng Nghymru a chynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth ac ymgysylltiad. Mae seminar i roi cyflwyniad ar y Comisiwn Ewropeaidd a'r cyfleoedd ar gyfer cael gafael ar gyllid rhyngwladol wedi'i drefnu fel cam cyntaf.

### Effaith

Mae datblygu partneriaethau amlasiantaeth yn galluogi IHCC i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer cydweithredu, cyd-ddysgu a chael mwy o gyllid Ewropeaidd.

## 15 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn gweithio gydag Is-adran Materion Ewropeaid ac Allanol Llywodraeth Cymru i nodi'r cysylltiadau sy'n hyrwyddo gwybodaeth ac arbenigedd Cymru mewn perthynas ag iechyd.

### Cynnydd

Bu'r Ganolfan yn creu cysylltiadau ag Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol Llywodraeth Cymru. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys dau gyflwyniad seminar, ac mae rhagor o seminarau a gweithdai wedi'u cynllunio. Mae cysylltiadau â Rhwydwaith Rhanbarthau er Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd yn cael eu datblygu.

Bu cynrychiolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru ar nifer o ymweliadau astudiaeth gyda phartneriaid Ewropeaidd yn y rhwydwaith.

### Effaith

Mae'r IHCC wedi cynnal perthynas ffrwythlon gyda LIC, gan gyfuno ymdrechion ac adnoddau i hybu agenda a llais rhyngwladol Cymru. Mae cyfranogiad gweithredol mewn sefydliadau/partneriaethau Ewropeaidd sefydledig wedi darparu gwybodaeth a chyfleoedd ar gyfer gwaith iechyd rhyngwladol ledled Cymru.

# Cysylltiadau Rhyngwladol

**Mae'r cysylltiadau gydag asiantaethau rhyngwladol wedi cryfhau, yn enwedig y rheiny gyda Rhwydwaith Rhanbarthau Iechyd Ewropeaidd WHO. Mae Cyfarwyddwr yr Is-adran Polisi, Ymchwil a Datblygu bellach yn bwynt cyswllt ar gyfer y rhwydwaith yng Nghymru. Bwriedir datblygu'r cysylltiad hwn ymhellach a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gydweithio a rhannu'r hyn a ddysgir gyda rhanbarthau Ewropeaidd tebyg.**

Mae'r Ganolfan wedi gwneud cyflwyniadau mewn sawl digwyddiad i godi ei phroffil a datblygu cysylltiadau, ac mae wedi cael cyfarfodydd â phob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd yng Nghymru i drafod yr agenda rhyngwladol.

Un o'r prif ddigwyddiadau oedd cyfarfod rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd Cyhoeddus a Materion Defnyddwyr (DG SANCO) ym mis Mai 2014. Cynhaliwyd y cyfarfod ar ffurf seminar ar waith y Comisiwn Ewropeaidd, a chafwyd cyfarfod rhwng John Ryan, Cyfarwyddwr DG SANCO, David Hughes, Pennaeth Swyddfa Comisiwn Ewropeaidd Caerdydd, yr Athro Mark Drakeford AS, Tracey Cooper, Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Mansel Aylward, Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Meddai John Ryan:

"Croesawaf y cyfle i gwrdd â'r Gweinidog, Mark Drakeford, a'i dîm, a chydag arbenigwyr iechyd cyhoeddus o Gymru. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn rhoi pwys mawr ar warchod iechyd cyhoeddus a rhannu gwybodaeth."



*Yr Athro Mark Drakeford, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyda Mr John Ryan, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Materion Defnyddwyr yr Undeb Ewropeaidd, Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Dr Mansel Aylward, Cadeirydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

"Gallai'r profiadau a'r arbenigedd a feithrinwyd yng Nghymru fod yn ddefnyddiol mewn mannau eraill yn Ewrop. Yn yr un modd, gallai Cymru ymuno mewn mentrau Ewropeaidd sy'n canolbwyntio'n benodol ar heriau iechyd mawr fel canser, clefyd cardiofasgwlaidd a chlefydau cronig."

Yn ystod y cyfarfod â'r Gweinidog, trafodwyd gordewdra ymhlith plant, cyffuriau cyfreithiol ac alcohol, yn ogystal â systemau data, fel rhai'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac Eurostat, a'r bas data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw, fel dulliau ar gyfer gwella sut y caiff perfformiad y gwasanaeth iechyd ac iechyd cyhoeddus ei fesur. Dyma ddechrau deialog parhaus yn archwilio sut y gall Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd gydweithio'n agosach i amddiffyn a gwella iechyd a lles poblogaeth Cymru.

# 4 Meincnodi a chymharu

Er bod ein hiechyd wedi gwella dros amser, ac mae'n parhau i wella, mae'n ddefnyddiol asesu ein perfformiad a'n canlyniadau yn erbyn rhai sefydliadau eraill.



Dros yr 20 mlynedd diwethaf, bu gan Gymru ddyhead i sicrhau canlyniadau iechyd sy'n cyfateb i'r rhai gorau yn Ewrop, neu'r byd. Er mwyn cydnabod y gwaith da yr ydym wedi bod yn ei wneud, mae angen inni edrych ar lefelau iechyd ac arferion da ledled y byd a chysuro ein hunain bod Cymru'n cyflawni canlyniadau iechyd sydd o safon fyd-eang.

## 16 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn adolygu'r fframweithiau cymharol ar iechyd rhyngwladol ac yn casglu'r wybodaeth yn ganolog.

### Cynnydd
Cyhoeddwyd trosolwg o'r fframweithiau cymharol ar iechyd rhyngwladol yn 2013, sydd i'w gael yn Atodiad A.

### Effaith
Hwylusodd hyn y trafodaethau ar y ffordd ymlaen i ddatblygu meincnodi a chymharu rhyngwladol, gan lywio papur opsiynau a ddatblygwyd gan LlC a'r grwp Gorchwyl a Gorffen a neilltuwyd i archwilio'r maes hwn.

## 17 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Grŵp Rhyngwladol Strategaeth Iechyd yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y gweithgaredd iechyd rhyngwladol sy'n digwydd yng Nghymru, gan amlygu'r buddiannau y mae Cymru'n eu cael o'r ymgysylltiad.

### Cynnydd
Mae'r Ganolfan yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed i'r Grŵp.

### Effaith
Mae'r Ganolfan yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am ei gweithgareddau a'r gwaith rhyngwladol sy'n cael ei alinio.

## 18 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn gweithio gydag ymchwilwyr i ddatblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer ymgysylltu'n rhyngwladol ar iechyd.

### Cynnydd
Mae'r Ganolfan wedi nodi offerynnau posibl sy'n bodoli eisoes i'w hystyried a'u datblygu.

### Effaith
Mae'r rheiny sy'n ymgysylltu â gwaith partneriaid iechyd rhyngwladol wedi'u hysbysu ynghylch dulliau gwerthuso.

## 19 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys cymariaethau iechyd rhyngwladol yn y dull o adrodd ar ddangosyddion iechyd Cymru.

### Cynnydd
Mae'r gwaith wrthi'n cael ei wneud gan LlC, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac asiantaethau cenedlaethol i adolygu setiau data ac offerynnau presennol ac i ddatblygu dangosyddion cymharol i lywio Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil Iechyd y Cyhoedd.

### Effaith
Mae'r Ganolfan wedi codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cael data rhyngwladol cymharol.

## 20 Camau Gweithredu ar sail y Fframwaith

Bydd y Ganolfan yn edrych ar ddulliau gweithredu wedi'u gwerthuso mewn mannau eraill, fel y gwaith ar leihau nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty yn Camden, New Jersey, er mwyn llywio'r dulliau a ddefnyddir yng Nghymru.

### Cynnydd
Cafodd y cam gweithredu hwn ei oddiweddyd gan ddatblygiadau, gan gynnwys ymrwymiad Cymru i'r agenda gofal iechyd darbodus sydd wedi'i seilio ar enghreifftiau rhyngwladol o Frasil, Canada, Yr Iseldiroedd, Seland Newydd, Sweden a'r UDA.

### Effaith
Dylid defnyddio cyd-ddysgu i lywio gwelliant canlyniadau iechyd hirdymor dinasyddion Cymru yn y ffordd fwyaf effeithiol a chost effeithiol.

# Ymchwilio i Ddulliau Meincnodi a Chymharu

**Sefydlodd y Ganolfan Grŵp Gorchwyl a Gorffen i archwilio’r broses o roi’r tasgau meincnodi a chymharu ar waith. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cysylltiadau Cymunedol Cymru ac Affrica, Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica, ac Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gofynnwyd am farn y Ganolfan Ymchwil ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol.**

Cyfarfu’r grŵp sawl gwaith i edrych ar ffyrdd posibl o symud ymlaen a lluniwyd papur opsiynau gan gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru mewn ymateb i’r grŵp. Fodd bynnag, sefydlwyd grŵp tryloywder gan y Llywodraeth i edrych ar gymariaethau rhyngwladol yn dilyn hynny, a arweiniodd at bosibilrwydd o ddyblygu gwaith, ac felly daeth y grŵp gorchwyl a gorffen i ben.

Cyhoeddodd Cysylltiadau Cymunedol Cymru ac Affrica Fframwaith Effeithiolrwydd, y gellir ei ddefnyddio i hunanasesu ac sy’n berthnasol i’r rheiny sy’n gweithio mewn unrhyw wlad ddatblygol ac yn effeithiol ar gyfer monitro a gwerthuso gweithgareddau.

Daethpwyd i’r casgliad bod digon o weithgaredd yn y maes hwn, a bydd y Ganolfan yn ymgysylltu lle bo hynny’n bosibl ac yn parhau i archwilio potensial cymariaethau rhyngwladol drwy’r Rhwydwaith Rhanbarthau er Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd.



# Gweithgareddau Eraill

Yn ogystal â'r tasgau eraill a wnaed fel rhan o ddogfen fframwaith Llywodraeth Cymru, mae'r Ganolfan wedi buddsoddi amser mewn meysydd gwaith eraill, a fu'n fuddiol o ran amcanion a blaenoriaethau'r fframwaith.

## Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

Lluniwyd papur cefndir i amlinellu cyd-destun presennol Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yng Nghymru, sy'n awgrymu cynnig prosiect ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Ganolfan Cydlynu Iechyd Ryngwladol, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol.

Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi gwybodaeth i lywio'r datganiad ar sefyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (ewch i Atodiad A).

## Proffiliau Gwledydd

Bu'r Ganolfan yn gweithio gyda Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica a'r Panel Cynghori ar Affrica Is-Sahara er mwyn datblygu proffiliau gwledydd.

Diben y gwaith hwnyw annog y rheiny sy'n gweithio'n rhyngwladol i fod yn ymwybodol o bolisïau mewnol gwledydd a'u dulliau o weithio, a bydd yn cynnwys gwybodaeth am ddemograffeg a diwylliant y gwledydd.

Er bod y gwaith proffiliau gwledydd yn dal i gael ei ddatblygu, gelllir gweld fersiwn drafft ar wefan IHCC.

## 'Pennies from Heaven'

Mae'r Ganolfan wedi cefnogi penderfyniad Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithredu'r cynllun aberthu cyflog 'Pennies for Heaven' yn y sefydliad. Daeth yn amlwg ar ôl gwneud gwaith cwmpasu ar gyfer Cylchlythyr Iechyd Cymru (2006) 070 mai Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd un o'r unig sefydliadau GIG yng Nghymru nad oedd yn cymryd rhan yn y cynllun.

Pleidleisiodd staff Iechyd Cyhoeddus Cymru am yr elusennau yr hoffent roi'r arian iddi, ac maent bellach yn rhoi i ddau sefydliad yng Nghymru, un sy'n cefnogi gweithgaredd rhyngwladol, sef Maint Cymru, ac un cenedlaethol, sef Tros Gynnal Plant.



## Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), Moldofa

Cysylltodd WHO Moldofa â'r Ganolfan er mwyn casglu gwybodaeth am sut y trefnir gweithgaredd iechyd rhyngwladol yng Nghymru, yn enwedig o ran gwaith ar draws adrannau'r Llywodraeth a gwahanol sectorau, er mwyn datblygu proses anwleidyddol o ymgysylltu ag iechyd byd-eang. Dewiswyd Cymru am ei bod yn wlad lai sydd â chysylltiad agos â chymydog mawr.

# Datblygu'r Ganolfan yn y Dyfodol

Cafodd gwaith y Ganolfan ei lywio hyd yma gan y camau gweithredu a amlinellir yn nogfen strategol Llywodraeth Cymru: 'Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau: Fframwaith ar gyfer cysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd'.

Yng ngoleuni'r uchod a newidiadau sefydliadol diweddar yn Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae IHCC a'i Grwp Cynghori ar hyn o bryd yn adolygu eu gweithgareddau ac yn datblygu cynllun strategol 3 blynedd.

Mae'r cynllun yn ehangu ar y seilwaith cryf a sefydlwyd gan y Ganolfan o ran y canlyniadau a gyflawnwyd, y cysylltiadau a wnaed â rhanddeiliaid, a'r cydweithio ar sail Ewropeaidd ac yn fyd-eang.

Mae'n datblygu meysydd sy'n dod i'r amlwg y mae angen gweithredu arnynt, ac yn cael ei lywio gan anghenion, asedau a blaenoriaethau'r Llywodraeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG yng Nghymru.



Mae'r Ganolfan wedi sefydlu ei hun yn llwyddiannus fel canolbwynt a sefydliad allweddol mewn gwaith iechyd rhyngwladol yng Nghymru. Mae'n awyddus i ddatblygu'r gwaith hwn yn y dyfodol, gan sicrhau bod yr hyn a ddysgir a datblygiadau o fewn iechyd cyhoeddus yn cael eu rhannu a'u hwyluso  er mwyn creu'r buddiannau iechyd a lles gorau posibl ar gyfer poblogaeth Cymru a thu hwnt iddi.

# Atodiad A

## Cyflawniadau'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd

Mae holl gyhoeddiadau IHCC ar gael ar-lein yn www,internationalhealth.wales.nhs.uk.

| Teitl | Disgrifiad |
|---|---|
| Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru | Datblygwyd y Siarter i gydnabod yr angen pwysig am ddull mwy cadarn a chyson ar gyfer partneriaethau rhyngwladol, sy'n cydymffurfio ag uchelgeisiau, egwyddorion a moeseg Cymru ac yn eu hategu. |
| Gwaith Mapio'r Ganolfan ar Weithgaredd Iechyd Rhyngwladol ledled Cymru | Yn 2013, dosbarthwyd holiadur i staff iechyd proffesiynol y GIG yng Nghymru. Ymatebodd y staff gan nodi eu hymgysylltiad â gwaith iechyd rhyngwladol a chyhoeddwyd adroddiad. |
| Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Ganolfan ar y camau a gymerwyd ar sail Cylchlythyr Iechyd Cymru (2006) 070 | Yn 2013, dosbarthwyd holiadur i Brif Weithredwyr pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru i ofyn am eu barn am y camau a gymerwyd o ran cydymffurfio â'r Cylchlythyr a'u hymrwymiad i waith iechyd rhyngwladol. Cafodd yr ymatebion eu cynnwys mewn adroddiad. |
| Bas Data o Brosiectau Iechyd Rhyngwladol | Mae'r bas data yn dangos yr amrywiaeth o waith iechyd rhyngwladol sy'n digwydd ledled Cymru, yn ogystal â rhoi gwybodaeth am brosiectau, adnoddau a phrif unigolion cyswllt. |
| Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod | Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth gefndirol am AOCB yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r papur hwn yn mynd gam o'r ffordd tuag at amlinellu cyd-destun presennol AOCB yng Nghymru, ac yn awgrymu prosiect ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Ganolfan, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a phrif randdeiliaid eraill. |
| Gwaith cwmpasu ar ganfyddiad staff y GIG o Ddinasyddiaeth Byd-eang yn y GIG yng Nghymru | Yn 2015, dosbarthwyd holiadur i staff ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd yng Nghymru er mwyn casglu sylwadau a gweld pa ddiddordeb sydd mewn cwrs Dinasyddiaeth Byd-eang. Casglwyd y canlyniadau mewn adroddiad. |
| Mapio'r Cwricwlwm Iechyd Byd-eang mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru | Diben y ddogfen hon oedd mapio cyfraniad a chyrhaeddiad gwaith iechyd rhyngwladol mewn sefydliadau addysg uwch. |
| Fframweithiau Cymharol ar Iechyd Rhyngwladol | Mae'r papur hwn yn asesu'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd y gellir ei defnyddio i feincnodi iechyd pobl Cymru o gymharu â gwledydd neu ranbarthau eraill. |
| Proffiliau Gwledydd | Nod y gwaith hwn yw annog y rheiny sy'n gweithio'n rhyngwladol i fod yn ymwybodol o bolisïau a ffyrdd o weithio mewn gwledydd, yn cynnwys gwybodaeth fer ar ddemograffeg a diwylliant y wlad. |

# Atodiad B

## Adnoddau a gwefannau defnyddiol

### Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd

www.iechydrhyngwladol.wales.nhs.uk/hafan

- Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau: Fframwaith ar gyfer cysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd

www.gov.wales/topics/health/improvement/index/borders/?lang=cy

- Cylchlythyr Iechyd Cymru (2006) 070 (Saesneg yn unig)

www.internationalhealth.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1100/WHC%282006%29070.pdf

### Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

www.publichealthnetwork.cymru/en

- Datblygu Iechyd Rhyngwladol

www.publichealthnetwork.cymru/en/topics/health/international-health-development/

### Llywodraeth Cymru

www.gov.wales/?skip=1&lang=cy

- Llywodraeth Cymru Rhyngwladol

www.gov.wales/topics international/?skip=1&lang=cy

### Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol

www.gov.uk/government/organisations/department-for-international-development

### Yr Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Drofannol

www.thet.org

### Porth Iechyd yr Undeb Ewropeaidd

http://ec.europa.eu/health/index_en.htm

### Cymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd

www.ianphi.org/

### EuroHealthNet

http://eurohealthnet.eu/

### Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

www.wcia.org.uk/about_cy.html

### Hub Cymru

www.hubcymru.org

### Comisiwn Ewropeaidd

http://ec.europa.eu/index_en.htm

### Rhwydwaith Rhanbarthau er Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd

www.euro.who.int/en/about-us/networks/regions-for-health-network-rhn